Ysgol Rhydypennau

Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AD

Ffôn: 01970 828608 e-bost: prif@rhydypennau.ceredigion.sch.uk

17eg Gorffennaf 2017

Annwyl Riant / *Dear Parent*,

Bl.6: Mae adeg yma'r flwyddyn bob tro'n gyffrous, eto'n gyfnod trist wrth i ni ffarwelio â disgyblion Bl.6 fydd yn trosglwyddo i'w hysgolion uwchradd ym mis Medi. Ar ran y staff i gyd a'r Corff Llywodraethol, hoffwn longyfarch holl ddisgyblion Bl.6 ar eu cyflawniadau eleni ac ar draws eu 8 mlynedd ers cychwyn yn y dosbarth Meithrin!

Rydym yn hynod o falch ohonoch chi i gyd, nid dim ond eich cyraeddiadau academaidd, ond am fod yn llysgenhadon ardderchog i'r ysgol, yn arddangos ymddygiad da a chwrtais bob tro yn ogystal â'r gofal a'r gefnogaeth rydych chi'n dangos i'ch cyfoedion. Rwy'n dymuno gwyliau haf hapus iawn i bob un ohonoch chi a phob lwc a hapusrwydd ym mis Medi wrth i chi gychwyn pennod newydd cyffrous yn eich bywydau. Pob lwc i chi i gyd!

Staffio: Yn anffodus, byddwn yn ffarwelio a Miss Olwen Morus a Miss Caryl Griffiths dydd Gwener yma. Ar ran pawb yn Ysgol Rhydypennau, hoffwn ddiolch o galon iddynt am eu gwaith a'u cyfraniad i fywyd yr ysgol. Diolch yn arbennig i Miss Morus sydd wedi bod gyda ni am 10 mlynedd. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt ar gyfer y dyfodol. Diolch yn fawr iawn!

Dyddiadau: Bydd yr ysgol yn cau am 3:30yp dydd Gwener yma, 21ain Gorffennaf, ac yn ail-agor i ddisgyblion ar Ddydd Mawrth 5ed Medi.

Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth i'r ysgol yn ystod y flwyddyn a chan edrych ymlaen at fis Medi! Gan ddymuno haf hapus iawn i chi i gyd.

***Year 6**: This is always an exciting, yet sad time of year as we say goodbye to our year 6 pupils who will be transferring to secondary school in September. On behalf of all the staff and of the Governing Body, I'd like to congratulate all our year 6 pupils on their achievements this year and across their 8 long years since starting at Nursery.*

We are tremendously proud of you all, not only for your academic achievements, but for being such good ambassadors for our school, always demonstrating excellent behaviour and particularly the care and support you show to one another and your fellow students. I wish you all a very happy holiday and the best of luck in September as you start an exciting new chapter of your lives. Pob lwc pawb!

***Staffing**: Unfortunately, we will be saying farewell to Miss Olwen Morus and Miss Caryl Griffiths this Friday. On behalf of everyone in Ysgol Rhydypennau, I'd like to thank both Miss Morus and Miss Griffiths for their hard work and contribution to school life, especially Miss Morus who has been with us for 10 years. We wish them every happiness and success for the future. Thank you very much.*

***Dates**: School closes this Friday (21st July) at 3:30pm, and will re-open to pupils on Tuesday 5th September.*

Thank you one and all for your support to the school during the year. Wishing you all a happy and restful summer.

Yn gywir / Sincerely
Peter Leggett (Pennaeth)

Ysgolion Iach Ceredigion

We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Eco-Sgolion

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Pris Prydau Ysgol

A fyddech gystal â nodi y bydd pris Prydau Ysgol yn codi ym mis Medi 2017 o £2.35 i **£2.45** y dydd, gyda phris wythnosol y prydau yn codi o £11.75 i **£12.25**

Carwn annog y rhieni i dalu ar ddydd Llun er mwyn bod mewn credyd yn hytrach nag mewn dyled.

Yn gywir

Gill Jones
Swyddog Arlwyo

Dear Parent / Guardian,

Price of School Meals

Please note that School Meal prices will increase in September 2017 from £2.35 to **£2.45** a day and for the week will be from £11.75 to **£12.25.**

We would like to encourage parents to pay on a Monday to be in credit rather than in arrears.

Yours faithfully

Gill Jones
Catering Officer